**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-02(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Iau, 17 Ionawr 2002

**Amser:** 2.00pm i 3.35pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol: Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams (**Cadeirydd)** Brycheiniog a Maesyfed

Brian Gibbons Aberafon

Geraint Davies Rhondda

Brian Hancock Islwyn

Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

David Melding Canol De Cymru

Lynne Neagle Tor-faen

**Yn Bresennol:**

Sharon Hall Bwrdd Iechyd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)

Neil Wooding Bwrdd Iechyd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)

**Swyddogion**

Ann Loyd Cyfarwyddwraig, GIG yng Nghymru

Hilary Neagle Is-adran Adnoddau Dynol GIG

Ruth Treharne Tîm Mesur y GIG (Cymru)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Jane Westlake Clerc y Pwyllgor

Claire Morris Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rod Richards ac Ann Jones. Ni chafwyd unrhyw amnewidiadau.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y trafodaethau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe

**Eitem 2: Mesur Diwygio'r GIG a'r Proffesiynau Iechyd**
**Papur: HSS-02-02(p.1)**

2.1 Dywedodd y Gweinidog bod Adroddiad Ty'r Cyffredin a'r Trydydd Darlleniad wedi digwydd ddydd Mawrth 15 Ionawr. Cafodd y Mesur ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhy'r Arglwyddi y diwrnod canlynol a disgwylir i'r Ail Ddarlleniad ddigwydd yn ystod y pythefnos nesaf.

2.2 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi eisoes i grwpiau o is-ddeddfwriaeth posibl o ganlyniad i'r Mesur, pryd y byddent yn debygol o ddod i'r Pwyllgor a sut y dylid eu trin.
- Byddai Don Touhig yn ysgrifennu at David Melding ynglyn â materion oedd yn ymwneud ag offerynnau yn ysgrifenedig.
- Rhoddwyd pwerau gwneud cyfarwyddiadau i'r Cynulliad ond gellid eu gweithredu gan Weinidog, yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd iddynt.
- O dan is-ddeddfwriaeth, byddai gorchmynion sefydlu ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Byddai cyfle i'r Pwyllgor hefyd ddylwanwadu ar is-ddeddfwriaethau yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau a diddymu awdurdodau iechyd: statws, cyfansoddiad ac aelodaeth BILl; pwerau BILl; a strategaethau iechyd a lles.

- O dan Rheol Sefydlog 22.5, byddai'r Pwyllgor Busnes yn cael ei hysbysu o unrhyw orchmynion drafft fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, yr oedd mater yn ymwneud ag amseru, ac efallai y byddai angen i'r Pwyllgor ystyried rheoliadau drafft cyn y Cydsyniad Brenhinol.

2.3 Cynghorodd y Cadeirydd y gallai Rheolwyr Busnes wrthwynebu pe bai'r Gweinidog yn argymell i'r Pwyllgor Busnes na ddylid cyfeirio gorchymyn i'r pwyllgor pwnc. Fel arfer, y Llywydd fydd yn derbyn y gwrthwynebiadau hyn ac yn cyfeirio'r is-ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor priodol.

2.4 Wrth ystyried is-ddeddfwriaeth, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n disgwyl cael ei hysbysu o welliannau yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Derbyniodd y Pwyllgor mai'r Gweinidog fyddai'n penderfynu a fyddai'n derbyn y gwelliant cyn iddo gael ei ddadlau mewn cyfarfod llawn.

<u>Gweithredu</u>

- Byddai'r Gweinidog yn darparu amserlen a sampl o'r gorchmynion.

**Eitem 3: Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan - Prosiect Gofal Sylfaenol Hil a Iechyd**
**Papur: HSS-02-02(p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Neil Wooding a Sharon Hall o Fwrdd Iechyd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)

3.2 Amlinellodd Neil Wooding gwmpas y prosiect a'r canfyddiadau, a chyflwynodd Sharon Hall yr argymhellion. Atodir crynodeb o'u cyflwyniad yn Atodiad A.

3.3 Mewn ymateb i'r cyflwyniad, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd nifer o'r materion a amlinellwyd yn broblem nid yn unig i leiafrifoedd du ac ethnig ond i lawer o bobl ledled Cymru, yn arbennig pobl mewn grwpiau cymdeithasol-economaidd is.
- Roedd llinell iaith ar gael yn Abertawe yn galluogi gweithiwr meddygol proffesiynol i siarad â chlaf drwy gyfieithydd dros y ffôn. Dylai'r arfer hwn gael ei ledaenu a'i hysbysebu'n well.

3.4 Gwnaeth Tîm y Prosiect y pwyntiau canlynol:

- Dylai'r wybodaeth gael ei gweld fel set o ddata dangosol gan y bu'r gwaith ymchwil yn weddol lleol a chollwyd y cyfle i greu perthnasedd wrth weithio gyda phoblogaeth fach o leiafrifoedd du ac ethnig.
- Roedd enghreifftiau eraill o amhriodoldeb gwasanaeth ar gael.
- Roedd angen strategaethau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd personol a galluogi pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd. Byddai hyn wedyn yn creu gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd eu hangen.

- Roedd angen i’r GIG yn gyffredinol ddenu mwy o staff ond y gred oedd bod angen gweithredu positif i recriwtio pobl o leiafrifoedd du ac ethnig i'r GIG.
- Mae allgau, hiliaeth, camdrin a rhagfarn yn cyfrannu at salwch meddwl, yn arbennig lle mae cymunedau du ac ethnig yn fach iawn.
- Ni dderbynnir mai mewnfudwyr Gwyddelig ar y cyfan sydd waelaf eu hiechyd. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai'r gymuned deithiol, y rhan fwyaf ohonynt o Iwerddon, sydd waelaf eu hiechyd, ond roedd yn anodd iawn nodi eu hanghenion iechyd.

3.5 Diolchodd y Gweinidog i dîm y prosiect am eu cyflwyniad. Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth hanfodol am anghenion y boblogaeth leiafrifoedd du ac ethnig yng Nghymru a dylid ei defnyddio i lywio datblygu polisi, monitro polisïau ac arferion sy'n bodoli eisoes a dylanwadu ar y modd y caiff adnoddau ychwanegol eu gwario.

3.6 Ail-adroddodd y Gweinidog ei hymrwymiad i'r prosiect ac addawodd ddarparu gwybodaeth reolaidd i'r Pwyllgor drwy ei hadroddiad misol.

<u>Gweithredu</u>

- Gwybodaeth ddiweddar ynglyn â gweithredu argymhellion y prosiect i gael ei chynnwys yn adroddiad misol y Gweinidog.

**Eitem 4: Papur i'w Nodi - Adroddiad y Tasglu Cyflog Cyfartal**
**Papur: HSS-02-02(p.3)**

4.1 Cadarnhaodd y Gweinidog mai ei bwriad yw y bydd Ymddiriedolaeth GIG Powys wedi datrys y broblem bod staff ar delerau ac amodau gwahanol erbyn Ebrill 2003.

4.2 Yr oedd Cyfarwyddwr GIG yng Nghymru wedi gofyn am adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu'r modd y byddent yn mynd i'r afael â'r broblem, a byddent yn cael eu monitro ar gryfder y cynllun gweithredu hwn. Yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol mai eu cyfrifoldeb hwy yw datrys y broblem a rhaid iddynt wneud hynny erbyn mis Ebrill 2003.

4.3 Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ei hysbysu bod y Pwyllgor wedi derbyn y sicrwydd a gyflwynwyd yn y papur.

<u>Gweithredu</u>

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

-